

Gwobr Goffa Alexandra Reinhardt, Comisiwn Artist 2020 yn The Tetley, Leeds

Briff i Artistiaid

Dyddiad cau ymgeisio: 10:00 am dydd Llun 11 Tachwedd 2019

Gwahoddir artistiaid i ymgeisio am Gomisiwn Artist Gwobr Goffa Alexandra Reinhardt 2020 (ARMA), a gynhelir yn The Tetley, Leeds, werth £15,000. Mae'r Dyfarniad yn 2020 yn canolbwyntio ar iechyd meddwl a lles pobl ifanc. Mae'r wobwr yn cyllido artist neu artistiaid i ddyfeisio a chyflwyno prosiect cyfranogol sy'n cynnwys grŵp o bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed. Caiff y grŵp o gyfranogwyr eu dethol gan The Tetley ac ar hyn o bryd mae'n debygol o fod yn grŵp o bobl ifanc sydd wedi profi gofal. Fel canlyniad i'r prosiect bydd yr artist yn cynnal arddangosfa, perfformiad neu fath arall o ymgysylltu cyhoeddus yn Oriel Shirley Cooper, un o brif orielau The Tetley yn ystod haf 2020. Sefydlwyd ARMA er cof am yr artist Alexandra Reinhardt ac fe'i cefnogir gan Ymddiriedolaeth Elusennol Max Reinhardt (MRCT).

Bydd yr artist/iaid llwyddiannus yn gweithio gyda The Tetley a sefydliad partner rhwng diwedd Mai a dechrau Medi i gyflwyno prosiect cyfranogol gyda phobl ifanc. Gan weithio gyda'r cyfranogwyr, bydd yr artist yn rhannu ac yn arddangos canlyniadau'r prosiect yn Oriel Shirley Cooper rhwng diwedd Mai a dechrau Medi 2020.

Bydd yr artist yn cydweithio'n agos gyda Chynhyrchydd Cyfranogi yn The Tetley i gynllunio a chyflwyno'r prosiect.

Mae hwn yn gyfle cyffrous i artist neu artistiaid ymgymryd â phrosiect cyfranogol uchel ei barch sy'n cael cefnogaeth dda gan y partneriaid prosiect. Bydd Comisiwn ARMA yn rhan o raglen artistig The Tetley a chaiff ei hyrwyddo'n eang, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Caiff ARMA 2020 ei redeg gan Engage, y sefydliad arweiniol ar gyfer addysg oriel, gyda thua 870 o aelodau ar draws 270 o amgueddfeydd, orielau a sefydliadau celf weledol. Dyfarnwyd ARMA 2018 i Lindsey Mendick yn The Turnpike, Leigh; cwblhaodd yr artist Alison Carlier ARMA 2016 yn aspex, Portsmouth; dewiswyd Anne Harild ar gyfer ARMA 2015 yn the the Bluecoat, Lerpwl; yn 2014, bu Maria Zahle yn New Walk Museum and Art Gallery, Leicester ac yn 2013, roedd Elpida Hadzi-Vasileva yn mima, Middlesbrough Institute of Modern Art. I gael rhagor o wybodaeth am ARMA 2013–2016 gweler:

www.engage.org/arma

Comisiwn Artist 2020, Gwobr Goffa Alexandra Reinhardt (ARMA)

Yn The Tetley, Leeds y cynhelir Gwobr Goffa Alexandra Reinhardt 2020. Mae The Tetley yn ganolfan arloesol ar gyfer celf gyfoes sydd wedi'i lleoli ym mhencadlys art deco ysblennydd hen Fragdy Tetley ar Lan Ddeheuol Leeds. Mae The Tetley yn rhan o ward City and Hunslet yn Leeds, ac er nad yw mewn ardal o ymgysylltu diwylliannol isel fel y'i diffinnir gan ACE gan ei bod yn cynnwys holl ardaloedd Leeds, mae'n ffinio â rhai o ardaloedd mwyaf diffreintiedig y DU.

Trawsnewidiwyd adeilad 1930au The Tetley yn 2013 i gynnwys orielau unigryw, stiwdio ddsygu ar gyfer y rhaglen gyfranogi wobrweddig, stiwdio preswyl i artist, swyddfeydd i fusnesau creadigol, Bar a Chegin a manau cyfarfod ac ar gyfer digwyddiadau.

I artistiaid, mae The Tetley yn fentoriaid ac yn hyrwyddwyr, yn cynnig amser a gofod cymorth, buddsoddiad a datblygu. I'r cyhoedd ac i'r cymunedau lleol, mae The Tetley yn gyrchfan i archwilio gweithiau newydd a chyffrous, cymryd rhan mewn gweithdai, sgwrsiau a digwyddiadau ac archwilio eu creadigrwydd eu hunain.

Mae dros 130,000 o bobl yn ymweld â the Tetley bob blwyddyn i ddarganfod, creu, ymlacio a dysgu. Mae The Tetley yn credu bod hawl gan bawb i archwilio eu potensial diwylliannol beth bynnag eu cefndir economaidd, o weithdai chwarae blêr i blant dan bump oed, i artistiaid proffesiynol ar adeg pwysig yn eu gyrfa.

Nodau ARMA 2020 yw:

- Bod artist y creu ac yn cyflawni rhaglen gyfranogol neu brosiect sy'n ymgysylltu â grŵp o bobl ifanc 16–25 oed.
- Bod yr artist yn cyd-gynhyrchu gwaith celf gyda'r grŵp o bobl ifanc.
- Bod yr artist, mewn cydweithrediad â'r bobl ifanc, yn gwireddu arddangosfa neu arddangosiad cyhoeddus yn Oriol Shirley Cooper, un o brif orielau The Tetley yn ystod haf 2020.
- Bod y prosiect cyfranogol o fudd i iechyd meddwl a llesiant y cyfranogwyr.
- Darparu llais gweithredol i'r bobl ifanc wrth ffurfio rhaglen artistig The Tetley.

Y prosiect cyfranogol

Bydd y rhaglen neu brosiect cyfranogol yn gyfle i'r artist weithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc, a chael dealltwriaeth ac ysbrydoliaeth o'u profiad, a chydweithio ar gynhyrchu gwaith celf.

Caiff y grŵp o gyfranogwyr eu dethol gan The Tetley ac ar hyn o bryd mae'n debygol o fod yn grŵp o bobl ifanc sydd wedi profi gofal. Byddwn yn disgwyl i'r artist allu gweithio gyda hyd at 10–15 o bobl ifanc yn y grŵp. Bydd yr artist yn gweithio gyda sefydliad partner The Tetley a chaiff gefnogaeth gan un ohonyn nhw wrth weithio gyda'r grŵp. Ar y cam hwn disgwylw'n y bydd o leiaf 8 sesiwn i'r artist eu cyflwyno gyda'r grŵp, naill ai ar safle The Tetley neu oddi ar y safle. Fodd bynnag, hoffem i'r prosiect gyflawni lefel ddefn o ymgysylltu dros gyfnod estynedig o 8–10 wythnos yn ystod haf 2020. Caiff yr artist gefnogaeth The Tetley ac Engage i greu a chynllunio'r prosiect cyfranogol.

Oriel Shirley Cooper

Caiff Oriol Shirley Cooper, un o brif orielau ARMA 2020 yn The Tetley, ei neilltuo at ddefnydd ARMA 2020 o ddiwedd mis Mai tan ddechrau mis Medi 2020 (dyddiadau terfynol i'w cadarnhau). Bydd yr artist yn creu arddangosfa, perfformiad neu fath arall o ymgysylltu cyhoeddus yn y gofod hwn.

Gan ddibynnu ar y prosiect y bydd yr artist yn ei greu, gellid defnyddio'r oriel benodol ar gyfer cynhyrchu, ymgysylltu â'r cyhoedd a/neu arddangosfa ar wahanol adegau yn ystod y cyfnod rhwng mis Mai a mis Medi. Un dull posibl fyddai cynnal y sesiynau cyfranogi gyda'r bobl ifanc yn y gofod ym mis Mehefin cyn agor y gofod ar gyfer ymgysylltu cyhoeddus a/neu arddangos ym mis Gorffennaf ac Awst, er bod hyn yn hyblyg. Gellir sicrhau bod y gofod yn breifat yn ystod y sesiynau cyfranogi.

Yr artist

Gwahoddir artistiaid gweledol sy'n gweithio ym meysydd cerflunio, paent, ffilm, ffotograffiaeth, perfformiad, cyfryngau a thecstilau ac ati i ymgeisio. Croesawir ceisiadau cydweithredol gan ddau artist. Os bydd dau artist yn cyd-ymgeisio am y dyfarniad y disgwyliad yw y bydd un o'r rhain yn artist gweledol a gall y llall weithio fel artist gweledol

neu ar ffurf gelfyddydol arall. Nodwch y bydd yr arddangosfa fydd yn rhedeg ar yr un pryd â'r comisiwn hwn yn the Tetley yn cynnwys sain ac felly dylid osgoi defnyddio sain yng Nghomisiwn ARMA yn Oriel Shirley Cooper i sicrhau nad oes sain yn cyd-daro yn y prif orielau.

Dylai fod gan yr artistiaid o leiaf 3–5 mlynedd o brofiad y tu allan i addysg lawn amser, gyda pheth profiad blaenorol o weithio gyda phobl ifanc drwy brosiectau cyfranogol neu ymgysylltu cymunedol. Bydd angen sgiliau cyfathrebu cryf ar yr artist wrth weithio gydag ystod eang o bobl gan gynnwys pobl ifanc, rhanddeiliaid a phartneriaid prosiect. Dylai fod gan artistiaid brofiad o reoli cyllidebau, gweithio i derfynau amser a osodwyd a sgiliau rheoli amser a rheoli a chyflawni prosiectau mewn amgylchedd creadigol.

Bydd rhaid i'r artist gydymffurfio â gweithdrefnau diogelu a chyfrannu at asesiadau risg, fel y cynghorir gan The Tetley, Health for All ac Engage.

Gall The Tetley gynnig y cyfleusterau canlynol i artistiaid:

- Defnydd o **gyfarpar y ganolfan** — cyfarpar AV, taflunwyr, teledu, monitoriaid a chyfleusterau argraffu
- **Gofod penodol** i gyflwyno gweithdai yn y stiwdio ddysgu sy'n addas ar gyfer gweithdai sych a gwlyb
- **Ystafell gyfarfod breifat** ar gyfer cynllunio, cyfarfodydd gydag artistiaid, partneriaid a chydweithwyr
- **Cymorth mewn da gan dîm the Tetley**, gan gynnwys y prif gyswllt, y Cynhyrchydd Cyfranogi (rheoli'r comisiwn, rheoli'r bartneriaeth, cynllunio cyllidebau, dehongli), Cynhyrchydd Arddangosfeydd (gwireddu'r arddangosfa a churadu ac elfennau o gynllunio, gosod, arolygu a chynnal a chadw'r arddangosfa), Cyfarwyddwr (hyrwyddo a goruchwyllo'r Comisiwn) Cydlynnydd Marchnata a'r Wasg (ysgrifennu copi, datganiadau i'r wasg, hyrwyddo digwyddiadau a llunio ymgyrch farchnata i'r Comisiwn) Rheolwr Gweithredu Digwyddiadau (cydlyn digwyddiadau a lansio) a Rheolwr Cyfleusterau (asesu risg a diogelu'r adeilad a'r arddangosfa).
- **Deunydd sych cyfyngedig** gan gynnwys papur, pensiliau, pinau ac offer swyddfa
- **Cymorth technegol**, gan ddibynnu ar y gyllideb (mae gennym weithdy bach i alluogi adeiladu ar y safle ac wedi datblygu perthynas ragorol gydag arbenigwyr AV a gwneuthurwyr rydym ni'n eu defnyddio'n aml ar gyfer arddangosfeydd). Bydd mynediad i'r gweithdy dan oruchwyliaeth ein technegydd ar y safle gan ddibynnu a yw ar gael, gyda chyllideb yn cael ei ddyrannu ar gyfer eu hamser

Digwyddiad dathlu ac arddangosfa

Caiff digwyddiad dathlu ei drefnu gan The Tetley pan gaiff ARMA 2020 ei gwblhau. Caiff deunydd o'r rhaglen gyfranogol/addysgol; gwybodaeth am y comisiwn a deunydd yn gysylltiedig ag ARMA, gan gynnwys gwaith gan Alexandra Reinhardt o bosibl, eu harddangos yn The Tetley.

Cyfathrebu

Bydd The Tetley yn cynhyrchu deunydd i hyrwyddo Comisiwn Artist ARMA 2020 a hyrwyddo'r wobwr gyda chefnogaeth Engage. Bydd yr artist/iaid yn darparu delweddau o waith sy'n bodoli eisoes ar gyfer y deunydd marchnata a delweddau perthnasol wrth i'r prosiect fynd rhagddo. Anogir yr artist i gofnodi proses a chanlyniadau'r cyfnod preswyl drwy gyfryngau ar-lein fel blog, gan gydymffurfio ag unrhyw weithdrefnau diogelu a chanllawiau dogfennau a gyflwynir gan bartneriaid y prosiect.

Gwerthuso

Mae Gwerthuswr annibynnol wedi'i phenodi i werthuso ARMA 2020. Bydd The Tetley a'r artist/iaid yn cael cymorth Alison Unsworth, Cydlynnydd ARMA ac Engage.

Cyllideb

Bydd gwerth y dyfarniad sef £15,000, yn talu costau cynllunio a chyflwyno'r sesiynau cyfranogol; deunyddiau'r sesiynau cyfranogol; cynhyrchu'r gwaith celf, costau cludo a gosod; amser yr artist ac unrhyw dreuliau teithio neu lety.

Bydd The Tetley, gyda chefnogaeth MRCT, yn talu am y digwyddiad dathlu a'r arddangosfa ac elfennau eraill o reoli'r comisiwn artist, gan gynnwys cynhyrchu deunydd cyhoeddusrwydd a marchnata.

Yn ystod cyfnod cynllunio'r comisiwn, bydd yr artist yn cynnig dadansoddiad o'r gyllideb ar gyfer gwerth y dyfarniad o £15,000 gyda chymorth The Tetley ac Engage. Caiff y dyraniad cyllideb ar gyfer cynhyrchu, cludo a gosod y gwaith celf ei gytuno gan yr artist, The Tetley, MRCT ac Engage. Mae defnydd o isgontractwyr yn amodol ar gytundeb gyda The Tetley, a chytunir pa un ai yr artist ynteu The Tetley fydd yn dal y gyllideb i'w talu.

Dyddiadau pwysig

Dyddiad cau ymgeisio	10am, Dydd Llun 11 Tachwedd 2019
Cyfweliadau artistiaid yn The Tetley	12 Rhagfyr 2019
Sefydlu'r artist yn The Tetley	Ionawr 2020
Prosiect cyfranogol yn The Tetley	Mai–Gorffennaf 2020 (i'w gadarnhau)
Oriel Shirley Cooper ar gael	28 Mai 2020 – 6 Medi 2020 (i'w gadarnhau)
Digwyddiad dathlu	Awst (i'w gadarnhau)

Pwy all ymgeisio

Gwahoddir artistiaid gweledol i ymgeisio. Croesawir ceisiadau cydweithredol gan ddau artist. Os bydd dau artist yn cyd-ymgeisio am y dyfarniad y disgwyliad yw y bydd un o'r rhain yn artist gweledol a gall y llall weithio fel artist gweledol neu ar ffurf gelfyddydol arall.

Dylai fod gan yr artistiaid o leiaf 3–5 blynedd o brofiad y tu allan i addysg lawn amser, gyda pheth profiad blaenorol o weithio gyda phobl ifanc drwy brosiectau cyfranogol neu ymgysylltu cymunedol

Sut i ymgeisio

Cyflwynir ceisiadau ar-lein yn engage.org/happenings/call-for-artists-arma-2020/. Bydd y cais ar-lein yn eich llywio drwy rai cwestiynau syml am eich ymarfer a'ch agwedd at y comisiwn. Bydd gofyn i chi uwchlwytho copi o'ch CV a hyd at 6 enghraifft o'ch gwaith blaenorol (Caiff ymgeiswyr gyflwyno hyd at chwe delwedd ddigidol neu 2 ffeil fideo. Ni ddylai'r delweddau fod yn fwy na 2MB, gyda chydran o 72dpi. Dylai'r delweddau fod yn ffeiliau JPEG. Ni ddylai ffeiliau fideo fod yn fwy nag un munud o hyd. Uwchlwythwch i YouTube neu Vimeo); a manylion cyswllt dau ganolwr.

Dyddiad cau ceisiadau yw 10am dydd Llun 11 Tachwedd 2019

Y broses ddethol

Caiff artistiaid ar y rhestr fer eu gwahodd i gyfweliad yn The Tetley ddydd lau 12 Rhagfyr 2019. Bydd y panel yn cynnwys cynrychiolwyr o The Tetley, MRCT, Engage, ac arbenigwyr celfyddydau gweledol. Caiff costau teithio rhesymol eu had-dalu ar gyfer mynd i'r cyfweliad. Dewisir yr artist/iaid yn unol â Strategaeth Amrywiaeth a Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb Engage.

Rhagor o wybodaeth

Darllenwch ganllawiau'r prosiect yn Atodiad 2 cyn cyflwyno cais. Os oes gennych chi gwestiynau am y wobwr neu eich cais, cysylltwch ag Alison Unsworth, Cydlynnydd ARMA arma@engage.org

Mae Engage yn ymrwmo i gydraddoldeb mynediad. Pe bai angen y manylion ymgeisio mewn fformat arall, cysylltwch ag Engage ar 020 7729 5858 / info@engage.org

Atodiad 1: Partneriaid y Prosiect

Gwobr Goffa Alexandra Reinhardt

Cafodd ARMA ei sefydlu er cof am yr artist Alexandra Reinhardt gyda chefnogaeth Ymddiriedolaeth Elusennol Max Reinhardt.. To date the award comprised an artist participatory/education project arwain at waith celf gyhoeddus. Mae artistiaid wedi ymgymryd â chyfnodau preswyl mewn ysbytai NHS ers 2005 drwy raglen a gydlynwyd gan Paintings in Hospitals. O 2010, cydlynwyd y rhaglen cyfnod preswyl artistiaid gan The Art Room, sefydliad sy'n gweithio gyda chelf ac artistiaid i gefnogi pobl ifanc sy'n agored i niwed. Mae Engage, y Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Oriol yn falch iawn i fod yn rhedeg ARMA ers 2012. Mae'r dyfarniad wedi'i rhoi bob dwy flynedd ers 2016. Ar gyfer ARMA 2020, cyflwynwyd ffocws ar iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc.

Engage

Engage yw'r sefydliad arweiniol yn y DU ar gyfer eiriolaeth a hyfforddi mewn addysg orielau, gyda thua 870 ar draws 270 o amgueddfeydd, orielau a sefydliadau celf weledol. Mae'r aelodau'n cynnwys amgueddfeydd ac orielau cenedlaethol, awdurdod lleol ac annibynnol, yn ogystal â gweithwyr addysg proffesiynol llawrydd drwy'r DU. Mae gan Engage raglenni datblygedig yn Lloegr, Yr Alban a Chymru, ac yn canolbwyntio ar bedwar maes gwaith: ymchwil a gweithgareddau, datblygiad proffesiynol parhaus, rhannu arferion da, ac eiriolaeth. Mae Engage yn derbyn cymorth oddi wrth Raglen Portffolio Cenedlaethol Cyngor Celfyddydau Lloegr, arian prosiect oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru ac mae'n Gleient Blynnyddol i Creative Scotland. www.engage.org

The Tetley

Mae The Tetley yn ganolfan arloesol ar gyfer celf gyfoes sydd wedi'i lleoli ym mhencadlys art deco ysblennydd yr hen Fragdy Tetley ar Lan Ddeheuol Leeds. Mae The Tetley yn rhan o ward City and Hunslet yn Leeds, ac er nad yw mewn ardal o ymgysylltu diwylliannol isel fel y'i diffinnir gan ACE gan ei bod yn cynnwys holl ardaloedd Leeds, mae'n ffinio â rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig y DU.

Trawsnewidiwyd adeilad 1930au The Tetley yn 2013 i gynnwys manau oriel unigryw, stiwdio ddysgu ar gyfer y rhaglen gyfranogi wobrweddig, stiwdio preswyl i artist, swyddfeydd i fusnesau creadigol, Bar a Chegin a manau cyfarfod ac ar gyfer digwyddiadau.

I artistiaid, mae The Tetley yn fentoriaid ac yn hyrwyddwyr, yn cynnig amser a gofod cymorth, buddsoddiad a datblygu. I'r cyhoedd ac i'r cymunedau lleol, mae The Tetley yn gyrchfan i archwilio gweithiau newydd a chyffrous, cymryd rhan mewn gweithdai, sgysiau a digwyddiadau ac archwilio eu creadigrwydd eu hunain.

Mae dros 130,000 o bobl yn ymweld â the Tetley bob blwyddyn i ddarganfod, creu, ymlacio a dysgu. Mae The Tetley yn credu bod hawl gan bawb i archwilio eu potensial diwylliannol beth bynnag eu cefndir economaidd, o weithdai chwarae blêr i blant dan bump oed, i artistiaid proffesiynol ar adeg pwysig yn eu gyrfa.



The Tetley Weekender, 2018. Delwedd: Helena Dolby

Atodiad 2: Canllawiau'r Prosiect

Disgwylir y bydd yr artist/iaid llwyddiannus yn:

- Cadw cysylltiad ac yn derbyn cefnogaeth gan Gyddlynedd ARMA a The Tetley, o bell a thrwy ymweliadau neu gyfarfodydd achlysurol
- Gweithio gyda chyddlynedd ARMA a The Tetley i greu amserlen i'r prosiect gyda manylion y rhaglen cyfranogi cyn dechrau'r prosiect
- Gweithio gyda chyddlynedd ARMA, The Tetley a'r gwerthuswr annibynnol i gasglu data i asesu effaith y prosiect cyfranogi a'r comisiwn a chyfrannu at werthusiad cyffredinol y prosiect a'r comisiwn, gan gynnwys dychwelyd y deunydd astudiaeth achos ac adroddiadau gwerthuso/monitro yn amserol fel y nodir gan y gwerthuswr ac ar y cyd â Chyddlynedd ARMA
- Trafod a chytuno ar holl fanylion elfen addysgol/cyfranogol y prosiect gyda The Tetley, a chytuno ar unrhyw newidiadau i'r rhaglen o flaen llaw
- Cyflwyno cynllun ar gyfer arddangos y gwaith celf fel canlyniad i'r prosiect cyfranogol yn yr oriel a bennir, yn cynnwys crynodeb o'ch ymagwedd; crynodeb o'r sesiynau cyfranogol a gwblhawyd, disgrifiad o'r canlyniad arfaethedig sydd i'w gyflwyno yn yr oriel a chynllun manwl o'r ffordd y caiff hyn ei gyflawni, gan gynnwys dyluniadau manwl, manyleb deunyddiau, amserlen cynhyrchu a dadansoddiad o'r gyllideb gyda chadarnhad o gyflenwyr a dyfynbrisiau fel bo'n briodol.
- Datblygu'r cynnig, os oes angen, mewn ymateb i adborth gan bartneriaid y prosiect.
- Darparu lluniau gwneuthuriaid (graddfa gywir) os oes angen, i'w cytuno gan bartneriaid y prosiect.
- Trefnu ar gyfer darparu manyleb neu ddarluniau peiriannu os oes angen
- Gweithio gyda The Tetley ac unrhyw isgontractwyr neu wneuthurwyr i wireddu a gosod y comisiwn terfynol, o fewn y gyllideb, ar amser
- Trafod a chytuno ar benodi unrhyw isgontractwyr neu wneuthurwyr gyda The Tetley

- Trafod a chytuno ar unrhyw newidiadau arfaethedig i'r comisiwn artist a/neu'r prosiect cyfranogol gyda The Tetley, Engage, Cydlynnydd ARMA a'r MRCT. Rhaid i'r holl bartïon hyn gytuno ar unrhyw newidiadau cyn eu rhoi ar waith.
- Trafod cynllun cynnal a chadw'r comisiwn gyda The Tetley, os bydd gofyn
- Cynorthwyo Cydlynnydd ARMA a The Tetley i gael caniatâd oddi wrth unrhyw gyfranogwr a all ymddangos mewn ffotograffau neu fideo, neu gyfranogi fel arall yng nghomisiwn artist ARMA 2020 i'w defnyddio fel cofnod gweledol a'i ledaenu arlein ac mewn print
- Caniatáu'r hawl i MRCT, ARMA Engage a The Tetley ddefnyddio delweddau neu fideo'n dogfennu'r wobr at ddibenion hyrwyddo a marchnata
- Mynd i gyfarfod sefydlu yn The Tetley
- Darparu Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus werth £5,000,000.
- Cwblhau gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (sy'n cymryd lle Gwiriad y Swyddfa Cofnodion Troseddol), os oes angen

Perchnogaeth y gwaith:

- Bydd unrhyw waith cydweithredol a gyd-gynhyrchir gyda'r cyfranogwyr na chaiff ei dynnu i lawr ar ddiwedd cyfnod yr arddangosfa yn eiddo i The Tetley, oni chytunir yn wahanol gyda'r holl bartïon, heb daliad ychwanegol i'r artist.
- Bydd unrhyw waith celf a grëwyd yn unigol gan yr artist fel rhan o Gomisiwn Artist ARMA 2020 yn eiddo i The Tetley, oni chytunir yn wahanol gyda'r holl bartïon, heb daliad ychwanegol i'r artist.
- Bydd unrhyw waith celf a grëwyd gan y cyfranogwyr yn unig yn eiddo i'r cyfranogwr, oni chytunir yn wahanol gyda'r holl bartïon.

Caiff Engage gefngaeth hael gan:

